# CROESO I GYLCHLYTHYR CARFAN DATBLYGU'R GYMUNED – RHCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN: 08
EBRILL 2025 – MEHEFIN 2025




[RhCT Gyda'n Gilydd - Bod yn Gefn i Gymunedau a Thrigolion Ffynnu]

**Cynnwys:**

RhCT Gyda'n Gilydd – 10 Mlynedd – Dathlu Grwpiau Cymunedol – Tudalennau 2–7

Gweithgareddau Haf Grantiau Bach Y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Achlysuron Ariannu – Tudalen 8

Wythnos Gweithredu ar Ddementia 2025 – Tudalen 9

Wythnos Gwirfoddoli 2025 – Canolfannau Dros Dro er Gwirfoddoli – Tudalen 10

Cysylltu ag aelodau'r Garfan – Tudalen 11

# RhCT GYDA'N GILYDD – DATHLU 10 MLYNEDD

**Cafodd RhCT Gyda'n Gilydd ei sefydlu fis Ebrill 2015 i gynorthwyo o ran cydlynu'r dulliau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion / grwpiau cymunedol sy'n dymuno Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyflenwi gwasanaethau cymunedol.**
**Dewch i gael yr hanesion diweddaraf gan rai o'r grwpiau cymunedol sydd wedi dechrau eu taith, ac sy'n parhau i agor drysau at asedau gwerthfawr y mae mawr eu hangen ar y gymuned.**

Mae **Pwyllgor Pwll Gerddi Lee** hefyd yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed.

"Roedden ni ymhlith un o'r grwpiau cyntaf i gael budd cyngor a chymorth RhCT Gyda'n Gilydd ac mae wedi bod yn bartneriaeth sydd wedi ymestyn dros 10 mlynedd cyfan ac wedi ysgogi 2 achos o drosglwyddo asedau – Pwll Gerddi Lee a Chanolfan Groeso Penrhiwceiber.

Yn 2015 daeth aelodau'n grŵp at ei gilydd i ailagor Pwll Gerddi Lee er mwyn i blant a theuluoedd gael treulio'r haf mewn lle saff a braf.

Erbyn 2025, â chymorth sawl un o'n gwirfoddolwyr, mae Canolfan Groeso Penrhiwceiber yn ganolbwynt sydd wrth galon y pentref ac mae nifer o weithgareddau a gwasanaethau ar gael yno y mae modd i aelodau'r gymuned eu mwynhau a chael budd ohonyn nhw".













RhCT GYDA'N GILYDD
HELPU CYMUNEDAU A THRIGOLION I FFYNNU

# RhCT GYDA'N GILYDD – DATHLU 10 MLYNEDD

**Cafodd RhCT Gyda'n Gilydd ei sefydlu ym mis Ebrill 2015 i gynorthwyo o ran cydlynu'r dulliau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion / grwpiau cymunedol sy'n dymuno Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cynnig gwasanaethau cymunedol.**
**Dewch i gael yr hanesion diweddaraf gan rai o'r grwpiau cymunedol sydd wedi dechrau eu taith ac sy'n parhau i agor drysau at asedau gwerthfawr y mae mawr eu hangen ar y gymuned.**

**Canolfan Pentre**

"Ers i ni agor ein drysau ddechrau 2016 rydyn ni wedi croesawu cannoedd o aelodau'r gymuned i ystod eang o ddosbarthiadau, achlysuron a chyfleoedd cwrdd. Rydyn ni wedi bod yn hynod ffodus i weithio mewn partneriaeth â'r elusennau lleol, busnesau a phobl broffesiynol sy'n gymdogion i ni er mwyn cynnig cymorth a chyngor ymarferol ac emosiynol hefyd.

Ar hyd y daith, rydyn ni wedi gweld ein gwirfoddolwyr yn symud ymlaen at gyflogaeth amser llawn, rydyn ni wedi creu swyddi yn ein canolfan ac wedi rhoi cyfleoedd i'n gwirfoddolwyr a'n gweithwyr uwchsgilio; maen nhw wedi meithrin hyder a symud ymlaen yn sgil hyn.

Pan ddaeth hedyn y syniad ynghylch Canolfan Pentre yn y lle cyntaf, aeth yr aelodau sylfaenu at y Cyngor i gael cyngor ac arweiniad. Yn un o'r prosiectau trosglwyddo asedau cyntaf yn RhCT, roedd y cyngor a'r cymorth yna o'r diwrnod cyntaf yn amhrisiadwy ac mae wedi parhau hyd heddiw – mae wedi bod yn gonglfaen yn llwyddiant parhaus yr adeilad.

Fe roddodd Canolfan Pentre ddechrau i elusennau a grwpiau cymunedol eraill yn ein hardal leol, gan eu hysbrydoli i roi bywyd newydd i hen adeiladu oedd wedi mynd a'u pen iddyn nhw ac nad oedden nhw'n cael eu defnyddio.  Mae ein llwyddiant wedi ysbrydoli eraill ac mae'n dangos yn glir y gall trosglwyddo asedau fod yn llwyddiant i bawb.

Mae nifer helaeth o bartneriaid rydyn ni angen dweud diolch wrthyn nhw, gan gynnwys Coalfields Regeneration Trust a'r Loteri Genedlaethol, ond yn anad dim, fe fyddwn ni'n ddiolchgar am byth am y cymorth rydyn ni wedi'i gael dan Deb a Lynne o'r Garfan RhCT Gyda'n Gilydd.  Heb Deb a Lynne fyddai'n breuddwyd ar ddechrau'r daith ddim wedi dod yn wir.














# RhCT GYDA'N GILYDD – DATHLU 10 MLYNEDD

**Cafodd RhCT Gyda'n Gilydd ei sefydlu fis Ebrill 2015 er mwyn cynorthwyo o ran cydlynu'r dulliau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion / grwpiau cymunedol sy'n dymuno Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyflenwi gwasanaethau cymunedol.**

**Dewch i gael yr hanesion diweddaraf gan rai o'r grwpiau cymunedol sydd wedi dechrau eu taith, ac sy'n parhau i agor drysau at asedau gwerthfawr y mae mawr eu hangen ar y gymuned.**

## Partneriaeth Fern

“Mae Partneriaeth Fern yn Elusen Menter Gymdeithasol mawr ei pharch sydd wedi ymrwymo i wasanaethu'r cymunedau mae'n gweithredu ynddyn nhw. Cafodd ein helusen ei chreu i fod yn gymorth i blant, teuluoedd ac aelodau'r gymuned ehangach y mae angen cymorth hanfodol yn ymwneud ag ystod o anghenion dyddiol a thymor hir arnyn nhw.

Mae ein heffaith a'n cyrhaeddiad mwyaf i'w gweld yn ein gwaith yn rheoli chwe chyfleuster gofal plant Little Ferns, sydd wedi'u lleoli'n strategol ledled ardaloedd mwyaf difreintiedig RhCT. Rydyn ni wedi ailbwrpasu 2 adeilad cymunedol nad oedden nhw'n cael eu defnyddio yng Nglynrhedynog a'r Maerdy yn ganolfannau cymuned llawn bwrlwm yn rhan o gynllun Trosglwyddo Asedau RhCT Gyda'n Gilydd.

Canolfan Cymuned Glynrhedynog – daeth y Ganolfan Gymunedol i Feddiant Partneriaeth Glynrhedynog yn haf 2019. Ers hynny, mae'r Bartneriaeth wedi ymgymryd â rôl y partner arweiniol o ran cyflawni gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn y ganolfan. Mae'r ganolfan yn gartref i Wasanaeth Llyfrgell y Cyngor a Meithrinfa Little Ferns. Mae yno hefyd gyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio, ystafell synhwyraidd, dosbarth awyr agored, ystafell gymunedol (y mae modd ei llogi) a swyddfa ar gyfer Staff Partneriaeth Glynrhedynog.

Llwyddodd Partneriaeth Fern drosglwyddo ased cymunedol sef hen Lyfrgell Maerdy a gafodd ei ailagor â'r enw 'Hwb Cymuned y Maerdy' yn 2015. Mae'r cyfleuster yn cynnig ystod o gyfleoedd i aelodau'r gymuned gwrdd â'i gilydd, cymdeithasu, a meithrin sgiliau newydd drwy ystod o ddosbarthiadau a gweithgareddau cymunedol. Yn eu plith mae Clwb ar ôl Ysgol, Cynlluniau Chwarae dros y Gwyliau, Clybiau Gweithio, Sgiliau Hanfodol, Clwb Garddio, 'Men's Shed', grŵp Mam a Phram, dosbarthiadau ymarfer corff, ac ystod o weithgareddau eraill dan arweiniad y gymuned.






RhCT GYDA'N GILYDD

HELPU CYMUNEDAU A THRIGOLION I FFYNNU

# RhCT GYDA'N GILYDD - DATHLU 10 MLYNEDD

**Cafodd RhCT Gyda'n Gilydd ei sefydlu fis Ebrill 2015 er mwyn cynorthwyo o ran cydlynu'r dulliau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion / grwpiau cymunedol sy'n dymuno Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyflenwi gwasanaethau cymunedol.**
**Dewch i gael yr hanes diweddaraf gan rai o'r grwpiau cymunedol sydd wedi dechrau eu taith, ac sy'n parhau i agor drysau at asedau gwerthfawr y mae mawr eu hangen ar y gymuned.**

### Hwb Cana Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (CRT)

"Mae Hwb Cana Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (CRT) yn ganolfan gymunedol hanfodol ar gyfer Pen-y-waun. Yno mae gwasanaethau fel Banc Cymunedol Smart Money Cymru, Cyngor ar Bopeth, a chymorth o ran canser drwy Gyda'n Gilydd mewn partneriaeth â Macmillan Cancer Support yn cael eu cynnig.

Yn y dechrau'n deg roedd yn ganolfan gymunedol llawn bwrlwm. Yn 2017 pan gafodd ei roi yn ôl i'r Awdurdod Lleol, cymerodd Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (CRT) y rhydd-ddaliad dros yr ased wedi i'r adeilad fynd a'i ben iddo.

Roedd hwn yn benderfyniad strategol gan ein hymddiriedolwyr gan fod potensial i Hwb Cana o ran cynnig cyfleuster roedd mawr ei angen ar y gymuned sy'n cynnig cymorth, gwasanaethau a hyfforddiant i bobl Pen-y-waun. Fe ddigwyddodd yr ailwampio ar sail ymgysylltu â'r gymuned. Canlyniad hyn oedd diweddariadau i'r modd mae'r adeilad wedi'i drefnu a'i osod, a'r addurno o ran lliw, a hyd yn oed newid ei enw er mwyn talu teyrnged i'w hanes o fod yn 'Capel Cana'. Cafodd yr adeilad ar ei newydd wedd ei ailagor fis Ebrill 2023, wedi adnewyddiad gwerth £400,000 a gafodd ei ariannu yn sgil amrywiol gynlluniau'r llywodraeth a rhoddion hael. Canlyniad hyn oedd bod ein prosiect wedi ennill Gwobr Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, yn rhanbarthol.

Nid brics a mortar yn unig yw adeilad – pobl Pen-y-waun sydd wedi'n helpu ni i ofalu bod yr ased yma'n parhau i fod yn adnodd cymunedol gwerthfawr, sy'n cael ei ddefnyddio'n llawn."





# RhCT GYDA'N GILYDD – DATHLU 10 MLYNEDD

**Cafodd RhCT Gyda'n Gilydd ei sefydlu fis Ebrill 2015 er mwyn cynorthwyo o ran cydlynu'r dulliau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion / grwpiau cymunedol sy'n dymuno Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyflenwi gwasanaethau cymunedol.**

**Dewch i gael yr hanes diweddaraf gan rai o'r grwpiau cymunedol sydd wedi dechrau eu taith, ac sy'n parhau i agor drysau at asedau gwerthfawr cymunedol y mae angen mawr amdanyn nhw.**

### Parc Sglefrfyrddio Tonyrefail

Aeth aelodau Carfan RhCT Gyda'n Gilydd i agoriad swyddogol Parc Sglefrfyrddio a Champfa Awyr Agored Cyfeillion Ty'n y Bryn fis Hydref 2024.

Ar ôl 5 mlynedd o waith caled, llwyddodd y pwyllgor i godi oddeutu £355,000 o gyllid er mwyn datblygu'r Parc Sglefrfyrddio a Champfa Awyr Agored hygyrch ar safle Ty'n y Bryn yn Nhonyrefail – enghraifft heb ei ail o wydnwch a phenderfyniad diysgog cymuned.





### Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) Parc Gelligaled

Fyddai'r MUGA ddim wedi cael ei adeiladu heb gymorth anhygoel Deb a Steve yn enwedig. Roedden nhw'n wych.

Roedd y broses drosglwyddo'n un heriol ond gyda chymorth parhaus Steve, cafodd y MUGA ei adeiladu ac mae wedi cael ei ddefnyddio llawer gan blant a rhieni sy'n ymweld â'r parc.





### Canolfan y Gymuned, Bryn-cae

Fe ymgymerodd Cyngor Cymuned Llanharan â'r gwaith o drosglwyddo'r ased yma - Canolfan Gymunedol Bryn-cae, fis Chwefror 2025.

Drwy gydol y broses o drosglwyddo'r ased cymunedol ac wedi hynny rhoddodd RhCT Gyda'n Gilydd gymorth amhrisiadwy, a'n helpodd ni ofalu ein bod yn deall y broses ac i lywio strategaeth y ganolfan wrth edrych i'r dyfodol.



# RhCT GYDA'N GILYDD – DATHLU 10 MLYNEDD

**Cafodd RhCT Gyda'n Gilydd ei sefydlu fis Ebrill 2015 er mwyn cynorthwyo o ran cydlynu'r dulliau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion / grwpiau cymunedol sy'n dymuno Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyflenwi gwasanaethau cymunedol.**

**Dewch i gael yr hanes diweddaraf gan rai o'r grwpiau cymunedol sydd wedi dechrau eu taith, ac sy'n parhau i agor drysau at asedau gwerthfawr y mae mawr eu hangen ar y gymuned.**

## Y Siop Fach Sero

Cafodd Y Siop Fach Sero ei hagor fis Mawrth 2023 yn hen Lyfrgell Glynrhedynog, ac ar ôl dechrau digon anodd, ry'n ni yma o hyd!

Rydyn ni'n cynnig lleoliad siopa diwastraff, moesegol, masnach-deg ar gyfer pobl Glynrhedynog, Cwm Rhondda Fach a thu hwnt, yn ogystal â siop goffi a chaffi llysieuol/figan; rydyn ni'n gweini cynnyrch wedi'u cael yn lleol yma. Mae'n fan cymunedol, cyfeillgar, croesawgar a chynhwysol, ac mae gweithdai, gweithgareddau, grwpiau ac achlysuron yn cael eu cynnal yma.

Mae wedi bod yn gryn siwrne, gyda sawl cwymp a thro trwsgl ar hyd y daith – rydyn ni wedi dysgu llawer iawn! Mae gwersi wedi cael eu dysgu, ac rydyn ni'n dal i ddysgu o hyd! Mae llawer o waith i'w wneud o hyd!

Mae pobl wedi mynd a dod, mae llawer o welliannau wedi eu gwneud ac rydyn ni'n esblygu o hyd. Mae'n waith caled. Does dim digon o oriau yn y dydd! OND mae gyda ni gwsmeriaid gwych, triw, rheolaidd, ac o'u herwydd nhw rydyn ni'n dal i gredu.

Mae gyda ni bobl wych yng Ngharfan Datblygu'r Gymuned RhCT Gyda'n Gilydd, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio'n agosach gyda nhw wrth i ni weithio i ddatblygu'n syniadau newydd ar gyfer ein cymuned. Ymlaen amdani ar gyfer Y Siop Fach Sero – galwch draw cyn hir!


















Y SIOP FACH SERO

**Beth yw canolfan cynaliadwyedd?**

- Siop ddiwastraff
- Caffi diwastraff hyd eithaf ein gallu
- Siop Elusen
- Caffi Trwsio
- Mynediad at wasanaeth Benthyg (Llyfrgell y Pethau)
- Gweithdai
- Man cynnes cymunedol



# Gweithgareddau Haf Grantiau Bach Y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Ariannu Achlysuron Huddle

**Achlysuron Ariannu**

Mewn 3 lleoliad ledled Rhondda Cynon Taf mae aelodau'r garfan wedi cynnig cymorth wyneb yn wyneb i grwpiau cymunedol sydd am gyrchu Grant Bach Y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer Gweithgareddau dros yr Haf.

Roedd asiantaethau allanol gan gynnwys Interlink, Cwmpas, Gwaith a Sgiliau RhCT, Rhwydwaith Gweithredu ynghylch yr Hinsawdd RhCT a Gwasanaethau Cymraeg RhCT yn gefn o ran rhoi cymorth ychwanegol, felly hefyd o ran ariannu cyfleoedd a rhwydweithio.

**Roedd 36 grŵp cymunedol yn bresennol a 50 unigolyn**

O'r grwpiau hynny, cyflwynodd **21** gais ac roedd pob un yn llwyddiannus o ran sicrhau arian, a chyfanswm hyn oll oedd **£14,404.70!**



**Defnyddiol iawn, rhwydd ei ddeall, diolch**




**Achlysur ardderchog, gwybodaeth arbennig o dda, gwaith tîm heb ei ail, a hyn oll mewn awyrgylch gwych**








# TROI PONTY'N LAS 2025

Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly
Rhondda Cynon Taf

Unwaith eto, gan weithio â phartneriaid lleol o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, fe wnaethon ni 'Droi Ponty'n Las' er mwyn cydnabod Wythnos Gweithredu ar Ddementia. O rubanau glas a baneri i oleuo adeiladau lleol yn las, roedd yn wych gweld aelodau'r gymuned yn dod ynghyd i godi ymwybyddiaeth ynghylch dementia.



Daeth rhaglen o achlysuron amrywiol ar sail deall dementia â phobl ynghyd. Roedd perfformiadau oedd yn cyffwrdd y galon gan ddisgyblion o Ysgol Gynradd Maes y Coed yn rhan o hyn, disco'r 70au yng Nghalon Taf, achlysur rhannu gwybodaeth yng Ngarth Olwg a llawer yn rhagor. Ym mhob achlysur roedd modd cael gafael ar gyngor a chymorth hanfodol, ac roedden nhw'n rhoi cyfle hefyd i unigolion sy'n byw gyda dementia gael cysylltu â'u hanwylion.





Mae **Ceri Higgins, Cadeirydd Grŵp Llywio Pontypridd sy'n Deall Dementia,** wedi bod yn adlewyrchu ar effaith yr ymgyrch, gan ddweud**:** "Cysylltu â'n gilydd yw hanfod Troi Ponty'n Las. Dod â phobl at ei gilydd yw'r bwriad, a gofalu bod y rhai mae dementia yn effeithio arnyn nhw'n teimlo bod cymorth ar gael iddyn nhw, ac i ddathlu pŵer y gymuned."



# Wythnos Wirfoddoli 2025

## Achlysuron Gwirfoddoli

Yn rhan o'r wythnos gwirfoddoli, rydyn ni'n talu sylw i'r grwpiau cymunedol a'r unigolion anhygoel sy'n rhoi o'u hamser i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau.

Mewn partneriaeth ag Interlink RhCT a Chanolfannau Byd Gwaith lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau, cafodd **2 Achlysur Gwirfoddoli** eu cynnal yng Nghwm Rhondda Fach a Chwm Rhondda Fawr, er mwyn creu llwybrau ar gyfer unigolion sydd am wirfoddoli yn eu hardal leol.

Daeth **23 Grŵp Cymunedol lleol** i'r achlysuron yma i hyrwyddo eu cyfleoedd gwirfoddoli ac roedd mwy na **100 unigolyn yn bresennol.**







**Achlysur Anhygoel! Llawer o ymgysylltu ac adborth hynod gadarnhaol**



**Roedd yr achlysur yn un buddiol iawn; cafodd pawb y cyfle i ddysgu am yr hyn y gall gwahanol grwpiau eu cynnig**

RhCT GYDA'N GILYDD

HELPU CYMUNEDAU A THRIGOLION I FFYNNU

# Peidiwch ag anghofio bod modd i chi gysylltu ag unrhyw aelod o'r garfan ☺

**Sut i gysylltu ag aelodau'r garfan**

**Trosglwyddo Asedau Cymunedol**

**Sut i gysylltu ag aelodau'r garfan**

**Canolfan Cydnerthedd y Gymuned a'r Rhwydweithiau Cymdogaeth**

**Sut i gysylltu ag aelodau'r garfan**

**Cymorth Cyllid ac Adnoddau**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU